


Little Milford

Teithiau Byr



Little Milford

Teithiau Byr

Cludiant cyhoeddus: Bws gwasanaeth Freystrop 308/309, 359 (Dydd Sul), (780 m ar heol a llwybrau).

Coed Little Milford

Pellter: 0.7 milltir (1.1 km)

Cyfeirnod map: SM965116

Cymeriad: Coetir, a pheth cerdded ar yr heol.

2 sticil.

Gadewch y maes parcio ar y pen uchaf, trwy'r bwch drws nesaf i'r giât gyda'r arwydd 'Little Milford'. Dilynwch y llwybr llydan a ble mae'r llwybrau'n croesi, trowch i'r chwith. Arhoswch ar y llwybr, gan anwybyddu'r llwybrau i'r ochr. Ar ôl tro mawr wrth y fforc, cymerwch y llwybr ar yr ochr dde i fyny'r llethr. Ewch trwy'r bwch drws nesaf i'r giât a throwch i'r chwith i lawr y tyle. Ar ôl ychydig bach, trowch i'r chwith ar y llwybr troed (chwiliwch am sticil gyda saeth felen), a dilynwch y llwybr hwn wrth iddo ymdroelli trwy'r coed i lawr i'r lôn. Croeswch y sticil a throwch i'r chwith, gan ddilyn y lôn yn ôl i'r maes parcio.

Gogledd Little Milford

Pellter: 0.6 milltir (1.0 km)

Cyfeirnod map: SM966122

Cymeriad: Traeth a choetir, mwdlyd mewn rhai mannau.

2 sticil. Grisiau, mwdlyd mewn mannau.

Trowch i'r dde allan o'r maes parcio arno i'r lôn, trowch i'r chwith trwy'r bwch yn y ffens, gan ddilyn arwydd y llwybr troed, ar draws bont a dilynwch y llwybr trwy'r coed. Croeswch y sticil ar y dde a throwch i'r chwith. Ar waelod y grisiau, trowch i'r chwith.

Cymerwch y llwybr i'r chwith wrth y fforc, ewch yn syth trwy'r giât, i fyny yna i lawr y llethr. Pan fydd y llwybr yn cyrraedd nant ar y gwaelod, trowch i'r dde ac eto i'r dde, gan ddilyn arwydd y llwybr troed. Mae yna ychydig o lwybrau cul yn weledol - dilynwch y llwybr uchaf, mwy clir. Ar y gwaelod, croeswch y sticil a dilynwch y llwybr o gwmpas y gornel ac, ar ôl dod rownd y gornel, cymerwch y llwybr cul i fyny'r llethr ar y dde. Trowch i'r chwith wrth yr arwyddbost, yna ewch yn ôl at y grisiau a'r sticil o'ch blaen ar y dde. Croeswch y sticil a throwch i'r chwith, gan fynd yn ôl y ffordd y daethoch at y bont droed a'r bwch yn y ffens, a throi i'r dde arno i'r lôn nôl i'r maes parcio.

